**CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN**

Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Bentref Llanfachreth
Nos Fawrth, Gorffennaf 16, 2024 am 7:30 o'r gloch.

**AGENDA**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**1. Croeso'r Cadeirydd**

**2. Ymddiheuriadau:** Karen Goswell

**3. Datgan diddordeb.**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 18, 2024.**

**5 Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 18 , 2024.**

Eitem 8.b. Lythyr ateb (24/6/2024) oddi wrth y Parc ynglŷn â chais cynllunio NP5/54/136H. Maent yn rhoi gwybod mae'r ymgeisydd yn gofyn am ganiatad i amnewid ychydig o'r manylion y cais gwreiddiol, e.e. yr edrychiad allannol, gan gynnwys cymysgydd o wal cerrig a phren a'r edrychiad allannol. Amgáu mae ffurflen gais sydd yn amlinellu y newiadau i gyd. Does gan yr Awdurdod dim gwrthwynebiad i'r newiadau yma.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am sylw.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (28/6/2024).

Eitem 11.b. Cafwyd wybod gan Delyth mae Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am argymell rhoi arwydd 40mya yn lle yr arwydd ar y ffordd, a rhoi rampiau bob ochr i'r arwydd.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (2/7/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant at fisoedd Gorffennaf, Awst a Medi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (10/7/2024) oddi wrth Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur, Cyngor Gwynedd yn galw am safleoedd i gael eu cynnwys yn Gynllun Datblygu Lleol yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd (ddim yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri).

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c.  Llythyr (10/7/2024) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Cyfarfod Pwyllgor Meirionnydd ar 17/7/2024 am 7.00yh yn y Llyfrgell Rhydd, Dolgellau.  Amgáu mae Agenda a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meirionnydd 8/5/2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**7.  Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a.  Cais cynllunio NP5/54/461C.  Cais ôl-weithredol i leoli fan gwersylla o fewn cwrtil i gydymffurfio ag Amod 2 o cyfeirnod apêl cynllunio Rhif P44/385 a P44/404 dyddiedig 18 Mawrth 1987.  11 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2024).

b.  Cais cynllunio NP5/54/461D.   Cais ôl-weithredol i gadw sied bren.  11 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (6/7/2024).

c.  Cais cynllunio NP5/54/136G.  Gweler Eitem 5.

**8.  Materion Ariannol**

a.  Llythyr (4/7/2024) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru (Therapi a Chefnogaeth i Blant a'u Teuluoedd).  Maent angen cymorth arianol.

b.  Anfonwyd cais (4/7/2024) i HMRC am ad-daliad TAW am y cyfnod 1/4/2023 i 31/3/2024.

c.  Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/6/2024:  £1,172.94
Balans yn y banc ar 29/6/2024:   £9,124.61

**9.  Archwilio**

**10.  Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a.  Lamp Newydd Rhydymain.  Llythyr (16/5/2024) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn awgrymu gosod lamp newydd yr un ochr ar lamp bresennol.  Pris y gwaith fydd £1,700. Amgáu mae map yn dangos y lleoliad..

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd wybod gan Delyth mai y Cyngor Cymuned sy'n talu am y gwaith.

**12.  Materion yr Aelodau**

Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc